**Canmol yr Oen**

Bydd gweld gogoniant Iesu,
A chofio'r mannau bu,
Yn ennyn cân o newydd
Trwy'r holl nefolaidd lu:
Ei weld, a chofio Bethlem,
A'i eni yno'n dlawd –
Rhyfeddod Nef y Nefoedd
Fydd gweled Duw mewn cnawd.

Ei weld yn uwch na'r Nefoedd,
A'i gofio ymhlith ei gas,
Rhwng cyrn yr unicorniaid,
Gwrdd-deirw Basan fras;
Wrth gofio'r fuddugoliaeth,
Llawn wledd ga'r dyrfa lân;
Mor hyfryd fydd yr olwg!
Mor felys fydd y gân!

Ei weld, a chofio'r cwpan
Yn Gethsemane ardd,
Ei gofio'n dod o Edom,
Oll yn Ei wisg mor hardd;
Ei weld, a'i holl elynion
Yn droedfainc dan Ei draed;
Ei weld, a chofio'n golchi
O'n beiau yn Ei waed.

Ei weld, a chofio'r gofyn
Yn y fechnïaeth fawr,
Wrth fynd i'r ddeddf yn ddiwedd,
Rho'i fywyd glân i lawr;
Mynd dan ei holl felltithion,
A diodde'i dig yn llawn,
Heb ryddid o'i gafaelion
Nes llenwi'r Nef ag Iawn.

Ei weld, a chofio'i daro
Â miniog gledd Ei Dad,
A thywallt i farwolaeth
Ei enaid dros ei had;
Pa fodd na bydd yr olwg
Ar Brynwr euog ddyn
Yn ennyn cân a syndod
Trwy'r Nefoedd fawr ei hun?

***Robert Owen***